DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, **Practis Deintyddol uSmile**

16 Tachwedd 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:**0300 062 8163
**E-bost**: AGIC@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:**0300 062 8387
**Gwefan:** www.hiw.org.uk

Digidol ISBN 978-1-4734-5619-8
© Hawlfraint y Goron 2016

# Cynnwys


1. Cyflwyniad .......... 2
2. Cyd-destun .......... 3
3. Crynodeb .......... 4
4. Canfyddiadau .......... 5
    - Ansawdd Profiad y Claf .......... 5
    - Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol .......... 8
    - Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .......... 12
5. Methodoleg .......... 14
6. Y Camau Nesaf .......... 16
    - Atodiad A .......... 17

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar y canlynol:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, defnyddiol, hygyrch, a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb

Cynhaliodd AGIC arolygiad o Bractis Deintyddol uSmile yn 21 Hillsboro Place, Porthcawl, CF36 3BH ar 16 Tachwedd 2015.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Practis Deintyddol uSmile yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau deintyddol, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r diwylliant yn arwain at ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â'r safonau a'r canllawiau perthnasol.

Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â'n methodoleg ni yn Adran 5 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol uSmile yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Porthcawl, Pen-y-bont ar Ogwr. Mae’r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Mae Practis Deintyddol uSmile yn bractis cymysg sy’n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys pedwar deintydd (gan gynnwys perchennog y practis), pedair nyrs ddeintyddol, derbynnydd, a rheolwr practis. Ar adeg ein harolygiad, roedd dwy nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant hefyd yn gweithio yn y practis.

## 3. Crynodeb

Mae staff Practis Deintyddol uSmile yn trin cleifion â pharch a charedigrwydd. Nododd y cleifion a wnaeth gwblhau a dychwelyd holiaduron AGIC eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth roeddent wedi'i dderbyn a'u bod o'r farn eu bod wedi cael digon o wybodaeth ynglŷn â'u triniaeth ddeintyddol. Mae tîm y practis yn gwneud ymdrech i ddarparu triniaethau deintyddol i gleifion mewn modd amserol.

Mae'r practis yn darparu dulliau i gleifion allu rhoi adborth ynglŷn â'u profiad fel bod tîm staff y practis yn gallu ei ystyried wrth wneud gwelliannau i'r gwasanaeth lle bo'n briodol.

Roedd gan y practis systemau ar waith er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd mesurau rheoli ar waith er mwyn diogelu staff a chleifion rhag heintiau y gellir eu hatal sy'n gysylltiedig â gofal iechyd, a niwed sy'n gysylltiedig â chyfarpar pelydr-X. Roedd yr ystafelloedd triniaeth yn lân ac wedi'u dodrefnu i hwyluso glanhau effeithiol. Roedd y cyfarpar a'r offer deintyddol a ddefnyddiwyd i'w gweld mewn cyflwr da.

Roedd offer dadebru ar gael i'r staff pe byddai argyfwng gyda chlaf. Er eu bod yn cael eu harchwilio'n rheolaidd, gwnaethom ofyn i uwch staff y practis adolygu'r trefniadau fel bod offer yn cael eu harchwilio yn unol â'r canllawiau cenedlaethol.

O edrych ar gofnodion deintyddol cleifion, gwelwyd bod y triniaethau wedi'u cynllunio ymlaen llaw gyda'r nod o ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Fodd bynnag, rydym wedi gofyn yn ffurfiol i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis gofnodi manylion mwy penodol ynglŷn â'r triniaethau deintyddol a ddarperir. Rydym wedi gofyn hefyd bod perchennog y practis yn ailystyried y trefniadau storio ar gyfer cofnodion papur.

Dangosodd rheolwr y practis a pherchennog y practis arddull arwain gynhwysol ac ymrwymiad i wella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo bod y cyfathrebu o fewn y tîm yn effeithiol a'u bod yn cael cyfleoedd i ddilyn hyfforddiant sy'n berthnasol i'w swyddi.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Mae staff Practis Deintyddol uSmile yn trin cleifion â pharch a charedigrwydd. Nododd y cleifion a wnaeth gwblhau a dychwelyd holiaduron AGIC eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth roeddent wedi'i dderbyn a'u bod o'r farn eu bod wedi cael digon o wybodaeth ynglŷn â'u triniaeth ddeintyddol. Mae tîm y practis yn gwneud ymdrech i ddarparu triniaethau deintyddol i gleifion mewn modd amserol.**

**Mae'r practis yn darparu dulliau i gleifion allu rhoi adborth ynglŷn â'u profiad fel bod tîm staff y practis yn gallu ei ystyried wrth wneud gwelliannau i'r gwasanaeth lle bo'n briodol.**

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i’r practis ddosbarthu holiaduron AGIC rhwng cleifion er mwyn cael safbwyntiau ynglŷn â'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Dychwelwyd cyfanswm o 20 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *'Mae'r deintyddion a'r nyrsys deintyddol yn gyfeillgar iawn ac yn eich trin fel un o'r teulu.'*
>
> *'Mae staff y practis yn groesawgar iawn ac nid oes dim yn ormod o drafferth.'*
>
> *‘Gwasanaeth gwych.’*
>
> *'Gwasanaeth ardderchog, ac mae'r staff bob amser yn gwrtais ac yn wybodus.'*

<u>Gofal gydag urddas</u>

Gwelsom fod pobl oedd yn ymweld â'r practis yn cael eu trin ag urddas a pharch gan dîm y practis. Roedd y staff yn dîm cyfeillgar, a gwelsom ni nhw'n bod yn foesgar a chwrtais gyda'r cleifion. Cadarnhaodd y sylwadau a nodwyd yn yr holiaduron AGIC a gwblhawyd hefyd fod y cleifion wedi cael croeso pan oeddent yn ymweld â'r practis. Ychwanegodd rhai cleifion eu sylwadau eu hunain gan nodi eu bod wedi cael croeso cynnes iawn.

Yn ddieithriad, nododd pob claf oedd wedi cwblhau a dychwelyd yr holiaduron eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth ddeintyddol. O edrych

ar y sampl o gofnodion cleifion, gwelsom fod y deintyddion wedi trafod y driniaeth ddeintyddol ar gyfer cleifion unigol gyda nhw.

Roedd y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol preifat, ac roedd y wybodaeth ynglŷn â chostau triniaethau deintyddol preifat a chymhwysedd cleifion ar gyfer triniaeth am ddim y GIG wedi'i harddangos yn glir. Roedd hyn yn golygu bod y wybodaeth ynglŷn â chost bosibl triniaeth ar gael i'r cleifion. Roedd y practis wedi llunio taflen wybodaeth i gleifion, ac roedd copïau ar gael yn rhwydd i'r cleifion fynd â nhw adref. Roedd hyn yn golygu bod gwybodaeth allweddol am y practis, y gellid ei chadw er mwyn cyfeirio ati yn y dyfodol, ar gael i'r cleifion.

<u>Gofal amserol</u>

Roeddem o'r farn bod y practis yn gwneud ymdrech i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld mewn da bryd. Cadarnhawyd hyn gan sylwadau'r cleifion yn holiaduron AGIC, a nododd y rhan fwyaf o'r cleifion nad oeddent wedi profi unrhyw oedi wrth aros i gael eu gweld. Disgrifiodd y staff y broses ar gyfer hysbysu cleifion pe bai eu deintydd yn rhedeg yn hwyr neu'n absennol.

Roedd rhif ffôn cyswllt i gleifion ei ffonio wedi'i arddangos yn glir ger mynedfa'r practis. Roedd y rhif hwn hefyd wedi'i nodi yn y daflen wybodaeth i gleifion. Dywedwyd wrthym fod neges peiriant ateb y practis hefyd yn cyfeirio cleifion at y rhif cywir i'w ffonio. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn gallu cael cyngor ynglŷn â sut i gael triniaeth mewn argyfwng, a phan oedd y practis ar gau.

<u>Cadw'n iach</u>

Gwelsom fod rhywfaint o ddeunydd hybu iechyd ar gael er mwyn cefnogi pobl i ofalu am hylendid ac iechyd y geg eu hunain.

<u>Gofal unigol</u>

Roedd gan y practis drefniadau ar waith i sicrhau bod pobl ag anawsterau symudedd yn gallu cael gwasanaethau. Nid oedd unrhyw risiau'n arwain at y fynedfa i adeilad y practis, ac roedd ystafell driniaeth ar y llawr daear, a oedd â lle i gadeiriau olwyn, ar gyfer cleifion nad oedd yn gallu defnyddio grisiau.

Mae gan y practis drefniadau ar waith er mwyn i gleifion allu rhoi adborth ynglŷn â'u profiad o ddefnyddio'r practis. Gwelsom fod blwch awgrymiadau yn yr ardal aros fel bod cleifion yn gallu rhoi awgrymiadau unigol yn barhaus ynglŷn â sut y gellid gwella'r gwasanaeth. Dywedwyd wrthym fod arolygon cleifion wedi'u cynnal ac y bydd y rhain yn cael eu cynnal ddwywaith y flwyddyn o hyn ymlaen.

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer ymdrin â phryderon (cwynion) am driniaethau deintyddol y GIG a phreifat. Roedd rheolwr y practis

yn cadw cofnod ysgrifenedig o'r holl bryderon (cwynion) a dderbyniwyd. Pan dderbyniwyd pryderon (cwynion), gwelsom fod y practis wedi ymdrin â nhw ac wedi ymateb iddynt mewn da bryd. Roedd gweithdrefn gwyno'r practis wedi'i harddangos yn yr ystafell aros, ond gwnaethom awgrymu y gellid ei harddangos yn fwy amlwg er mwyn ei gwneud yn haws i gleifion ei gweld. Fodd bynnag, cadarnhaodd y rhan fwyaf o'r cleifion a wnaeth gwblhau a dychwelyd holiaduron AGIC eu bod yn gwybod sut i wneud cwyn am y gwasanaethau deintyddol maent yn eu derbyn.

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Roedd gan y practis systemau ar waith er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd mesurau rheoli ar waith er mwyn diogelu staff a chleifion rhag heintiau y gellir eu hatal sy'n gysylltiedig â gofal iechyd, a niwed sy'n gysylltiedig â chyfarpar pelydr-X. Roedd yr ystafelloedd triniaeth yn lân ac wedi'u dodrefnu i hwyluso glanhau effeithiol. Roedd y cyfarpar a'r offer deintyddol a ddefnyddiwyd i'w gweld mewn cyflwr da.**

**Roedd offer dadebru ar gael i'r staff pe byddai argyfwng gyda chlaf. Er eu bod yn cael eu harchwilio'n rheolaidd, gwnaethom ofyn i uwch staff y practis adolygu'r trefniadau fel bod offer yn cael eu harchwilio yn unol â'r canllawiau cenedlaethol.**

**O edrych ar gofnodion deintyddol cleifion, gwelwyd bod y triniaethau wedi'u cynllunio ymlaen llaw gyda'r nod o ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Fodd bynnag, rydym wedi gofyn yn ffurfiol i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis gofnodi manylion mwy penodol ynglŷn â'r triniaethau deintyddol a ddarperir. Rydym wedi gofyn hefyd bod perchennog y practis yn ailystyried y trefniadau storio ar gyfer cofnodion papur.**

<u>Gofal diogel</u>

Gwelsom fod systemau ar waith yn y practis i amddiffyn diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld â'r practis. Roedd nifer o bolisïau ysgrifenedig perthnasol ar gael i roi canllawiau i staff gyda'r nod o ddarparu gofal diogel i gleifion.

Roedd adeilad y practis i'w weld yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda y tu fewn a'r tu allan. Roedd mesurau diogelwch ar waith i warchod yr adeilad rhag mynediad heb ganiatâd. Roedd cyfarpar diffodd tân wedi'i osod yn strategol o gwmpas y practis, a gwelsom ei fod wedi cael ei wasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf. Roedd profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal ar gyfer eitemau trydanol bach er mwyn asesu a oeddent yn ddiogel i'w defnyddio.

Roedd dogfennau contract ar gael ar gyfer symud gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus a gynhyrchir gan y practis yn ddiogel. Gwelsom fod gwastraff yn cael ei storio'n ddiogel wrth aros i gael ei gasglu gan y contractwr gwastraff. Gosodwyd gwahanyddion amalgam er mwyn tynnu gronynnau amalgam (sy'n cynnwys mercwri) a geir mewn llenwadau deintyddol o ddŵr gwastraff cyn cael gwared arnynt yn ddiogel.

Gwelsom fod trefniadau ar waith i amddiffyn pobl rhag heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd y gellir eu hatal. Roedd enghreifftiau'n cynnwys y canlynol:

- polisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig i leihau'r perygl o groes-heintio
- roedd cyfarpar diogelu personol ar gael yn rhwydd
- roedd cyfleusterau penodol ar gyfer golchi a sychu dwylo ar gael
- roedd trefniadau ar waith ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadheintio) offer deintyddol a ddefnyddir yn y practis

Nid oedd ardal ddadheintio ar wahân yn y practis, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (WHTM 01-05).[1] Fodd bynnag, roedd gweithdrefnau rheoli priodol ar waith i leihau'r risg o groes-heintio rhwng offer deintyddol. Roedd y practis eisoes wedi nodi'r angen i ddatblygu a darparu gwasanaeth o safon uwch o ran hyn, a dywedodd yr uwch staff fod cynlluniau i ddarparu ystafell ddadheintio ar wahân yn rhan o'r gwaith o ddatblygu cyfleusterau'r practis yn y dyfodol. Roedd yr offer oedd yn cael eu defnyddio ar gyfer glanhau a sterileiddio i'w gweld mewn cyflwr da, ac roedd tystysgrifau gwiriad diogelwch cyfredol ar gyfer yr offer awtoclaf,[2] oedd yn cadarnhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Roedd gwiriadau ar offer yn cael eu cynnal bob dydd, ac roedd llyfrau cofnodion wedi'u cadw i ddangos y broses hon.

Gwnaethom edrych ar yr holl gyfleusterau clinigol (ystafelloedd triniaeth) yn y practis. Roedd y rhain yn lân ac yn daclus, wedi'u dodrefnu i hwyluso glanhau effeithiol, ac yn cynnwys cyfarpar addas ar gyfer darparu triniaethau deintyddol diogel i gleifion.

Gwelsom fod gan y practis drefniadau ar waith i sicrhau bod cleifion yn derbyn y feddyginiaeth a'r driniaeth gywir pe bai argyfwng. Gwelsom fod cyfarpar dadebru a chyffuriau brys ar gael gyda'i gilydd, ynghyd â system i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio pe bai argyfwng gyda chlaf (llewyg). Gwnaethom archwilio'r cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys a gwelsom eu bod o fewn eu dyddiad dod i ben. Er bod yr offer dadebru yn cael eu harchwilio bob mis, gwnaethom gynghori'r practis i adolygu'r trefniant hwn a chynnal yr

---

[1] Mae dogfen [Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1)] yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

[2] Siambr bwysedd yw peiriant awtoclaf a ddefnyddir i sterileiddio offer a chyflenwadau drwy ddefnyddio stêm dirlawn o bwysedd uchel.

archwiliadau bob wythnos, fel yr argymhellir gan Gyngor Dadebru'r DU.[3]Cytunodd rheolwr y practis i gynnal archwiliadau bob wythnos.

Roedd cyfres o siartiau llif ar gael i'r staff a oedd yn nodi'r camau y dylid eu cymryd pe bai argyfwng gyda chlaf. Roedd y rhain yn cael eu cadw mewn waledi plastig, ynghyd â'r cyffuriau oedd i'w defnyddio, er mwyn hwyluso mynediad haws mewn argyfwng.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n ymwybodol o'u rolau penodol pe bai argyfwng gyda chlaf. Gwelsom gofnodion hyfforddiant a oedd yn dynodi bod y staff wedi derbyn hyfforddiant cyfredol mewn dadebru cardio-pwlmonaidd.

Roedd gweithdrefn wedi'i sefydlu yn y practis i hyrwyddo ac amddiffyn lles plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu mewn perygl. Roedd y cofnodion hyfforddi a welsom yn dangos bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ynglŷn â materion diogelu. Disgrifiodd uwch staff y practis y broses o recriwtio staff newydd, a gwelwyd eu bod yn defnyddio dull diogel yn hyn o beth. Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n gyfforddus i godi unrhyw bryderon sydd ganddynt yn ymwneud â'r gwaith gydag uwch staff y practis.

Daethom i'r casgliad bod gan y practis drefniadau ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel. Mae hyn oherwydd bod y dogfennau a'r wybodaeth ofynnol ynglŷn â defnyddio offer pelydr-X yn ddiogel ar gael ac yn gyfredol. Dangosodd y tystysgrifau hyfforddi a welsom fod y staff wedi diweddaru eu hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio, a'u bod yn bodloni'r canllawiau a amlinellir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roedd uwch staff y practis yn barod i dderbyn ein hawgrym o arddangos mwy o arwyddion rhybuddio am berygl o ymbelydredd y tu allan i'r ystafelloedd triniaeth ar y llawr daear. Mae hyn er mwyn tynnu sylw cleifion a staff at y ffaith bod offer pelydr-X yno fel mesur diogelwch pellach.

<u>Gofal effeithiol</u>

Yn ystod trafodaethau gydag uwch staff y practis, gwelwyd eu bod yn ymroddedig i wneud ymdrech i wella'r gwasanaeth a ddarperir i gleifion sy'n ymweld â'r practis, a hynny'n barhaus.

[3]Sefydlwyd Cyngor Dadebru'r DU i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil, a chydweithrediad.

Gwelsom fod y practis wedi cynnal nifer o archwiliadau clinigol yn rhan o'r broses sicrhau ansawdd yn gyffredinol. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau'n ymwneud â rheoli heintiau, ansawdd delweddau pelydr-X, a chofnodion gofal deintyddol cleifion. Byddai'r rhain o gymorth i ganfod y meysydd i'w gwella fel bod modd cymryd camau gweithredu i unioni'r materion.

Gwnaethom adolygu sampl o 20 o gofnodion deintyddol cleifion a ddewiswyd ar hap er mwyn asesu ansawdd y cofnodion. Roedd y sampl hwn yn cynnwys cofnodion oedd wedi'u cwblhau gan bob un o'r deintyddion oedd yn gweithio yn y practis ar y pryd. Roedd y cofnodion yn dangos bod y triniaethau wedi'u cynllunio ymlaen llaw gyda'r nod o ddarparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol i'r cleifion. Fodd bynnag, gwnaethom nodi y byddai rhai o'r ffurflenni FP17[4] a gwblhawyd yn elwa o gofnodi mwy o fanylion ynglŷn â'r triniaethau deintyddol penodol a ddarparwyd. Gwnaethom roi adborth ynglŷn â'n canfyddiadau i'r deintyddion oedd yn gweithio yno ar adeg ein harolygiad fel eu bod yn gallu gwneud gwelliannau fel y bo'n briodol.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis sicrhau eu bod yn cofnodi mwy o fanylion yn y ffurflenni FP17 unigol ynglŷn â'r triniaethau deintyddol penodol a ddarparwyd i'r cleifion.***

Gwelsom fod cofnodion papur yn cael eu storio ar silffoedd agored. Rhoddwyd sicrwydd i ni fod mesurau diogelwch wedi'u rhoi ar waith er mwyn atal mynediad heb ganiatâd. Fodd bynnag, gwnaethom gynghori uwch staff y practis i ailystyried y trefniadau presennol er mwyn sicrhau cymaint â phosibl bod y cofnodion yn y practis yn cael eu diogelu rhag cael eu dwyn neu fynd ar goll.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai perchennog y practis ailystyried y trefniadau presennol ar gyfer storio cofnodion papur a chymryd camau pellach, fel y bo'n briodol, i leihau'r risg y byddant yn cael eu dwyn neu fynd ar goll cymaint â phosibl.***

---

[4] Ffurflen safonol yw FP17 ar gyfer cofnodi gweithgaredd triniaeth yng Nghymru. Mae'n rhaid ei chwblhau ar gyfer pob cwrs o driniaeth ddeintyddol y GIG o fewn dau fis i ddyddiad cwblhau'r driniaeth, a'i llofnodi gan y deintydd a'r claf.

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Dangosodd rheolwr y practis a pherchennog y practis arddull arwain gynhwysol ac ymrwymiad i wella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo bod y cyfathrebu o fewn y tîm yn effeithiol a'u bod yn cael cyfleoedd i ddilyn hyfforddiant sy'n berthnasol i'w swyddi.**

Roedd rheolwr practis yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd, ac roedd yn gweithio'n agos gyda pherchennog y practis. Yn ystod sgyrsiau gyda'r staff oedd yn gweithio ar ddiwrnod ein harolygiad, gwelwyd eu bod o'r farn eu bod yn cael digon o gefnogaeth gan uwch staff y practis a'r tîm ehangach yn eu swyddi.

Gwelsom dystysgrifau hyfforddi oedd yn dangos bod y staff wedi dilyn hyfforddiant mewn amrywiaeth o bynciau oedd yn berthnasol i'w swyddi, a chadarnhaodd y staff hefyd eu bod yn cael cyfleoedd i ddilyn hyfforddiant. Gwelsom fod y staff yn y practis wedi derbyn arfarniad o'u gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a bod amcanion wedi'u gosod. Disgrifiodd uwch staff y practis y trefniadau ar gyfer adolygu'r cynnydd mewn perthynas â'r rhain. Dywedodd y staff wrthym fod tîm y practis yn cyfathrebu'n effeithiol gyda'i gilydd a bod cyfarfodydd practis yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Gwelsom gofnodion ysgrifenedig cyfarfodydd a oedd yn dangos bod materion gweithredol yn cael eu trafod ac y cytunir ar gamau gweithredu.

Gwelsom fod staff clinigol yn cael eu cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod ganddynt yswiriant indemniad. Gwnaethom nodi bod anghysondeb o ran cofrestriad un aelod o'r staff a hysbyswyd perchennog y practis o'n canfyddiadau. Dywedodd perchennog y practis wrthym ei fod yn ymwybodol o hyn a rhoddodd esboniad boddhaol am yr anghysondeb. Rhoddwyd sicrwydd i ni fod camau gweithredu priodol wedi'u cymryd tra bod y mater yn cael ei ddatrys.

Roedd cofnodion ar gael oedd yn dangos bod y staff wedi derbyn brechiadau rhag hepatitis B i amddiffyn eu hiechyd eu hunain ac iechyd cleifion yn hyn o beth.

Roedd y deintyddion a oedd yn gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat, ac roedd eu tystysgrifau cofrestriad AGIC wedi'u harddangos

mewn lle amlwg fel sy'n ofynnol dan reoliadau deintyddiaeth breifat.[5] Fodd bynnag, nid oedd manylion cyswllt cywir AGIC wedi'u nodi ar bob tystysgrif. Yn unol â'r rheoliadau, cyfrifoldeb deintyddion unigol yw hysbysu AGIC am newidiadau. Gwnaethom hysbysu uwch staff y practis o'n canfyddiadau a rhoddwyd sicrwydd i ni y byddent yn gwneud trefniadau fel bod modd i AGIC gyflwyno tystysgrifau wedi'u diweddaru.

Roedd pob deintydd wedi cael tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd o fewn y tair blynedd diwethaf, fel sy'n ofynnol dan y rheoliadau a nodir uchod.

---

[5]Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.

## 5. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau o ysbytai yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal**




Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[6] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[7] Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio

[6] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh

[7] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh

1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel Safonau ar gyfer y Tîm Deintyddol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau’r practis
- Archwilio offer a’r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo’n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o’n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a’r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o’r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

## 6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd Practis Deintyddol uSmile yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni ar gyfer hynny.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig, ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC am y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Practis Deintyddol uSmile

## Dyddiad yr Arolygiad: 16 Tachwedd 2015

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| | Nid oes angen gwneud gwelliannau. | | | | |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| 11 | Dylai'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis sicrhau eu bod yn cofnodi mwy o fanylion yn y ffurflenni FP17 unigol ynglŷn â'r triniaethau deintyddol penodol a ddarperir i'r cleifion.<br>[Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 4.1.2] | Safon 3.5 | Ffurflenni FP17 i'w cwblhau mewn brawddegau yn ogystal ag ar ffurf nodiadau. | Sian Fodor, Rheolwr y Practis | Ionawr 2016 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 11 | Dylai perchennog y practis ailystyried y trefniadau presennol ar gyfer storio cofnodion papur a chymryd camau pellach, fel y bo'n briodol, i leihau'r risg y byddant yn cael eu dwyn neu fynd ar goll cymaint â phosibl.<br><br>[Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 4.1.3 a Safon 4.5.1] | Safon 3.5 | Angen cynnal arolygiad. | James Bater, Perchennog y Practis | Rhagfyr 2015 |
| | | | Cyfrifiaduron i gael eu gosod a'u defnyddio ar gyfer gwneud nodiadau yn y dyfodol, a bydd copi digidol wrth gefn yn cael ei wneud bob dydd a fydd yn osgoi'r angen am gofnodion papur. Mae trefniadau eisoes yn cael eu gwneud ar gyfer hyn. | James Bater, Perchennog y Practis | Ebrill 2016 |
| | | | Hen gofnodion papur i gael eu cadw mewn ystafell dan glo dros nos, er mwyn sicrhau eu bod yn fwy diogel. Swyddfa'r dderbynfa i gael ei chloi pan nad oes unrhyw un yno. | Sian Fodor, Rheolwr y Practis | Ionawr 2016 |
| | | | Unwaith bydd y cyfrifiaduron wedi'u gosod, adolygu'r posibilrwydd o wneud copïau wrth gefn o'r hen gofnodion i gyd yn ddigidol ar gyfrifiaduron. | James Bater, Perchennog y Practis | Rhagfyr 2016 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| | Nid oes angen gwneud gwelliannau. | | | | |

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (llythrennau bras):** .James Bater........................................................................................

**Teitl:** .Perchennog y Practis……………………………………….......................

**Dyddiad:** .21/12/15………………………………………………………………….